CYFRES C1

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 4



Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran ______ Dyddiad geni ______

Enw ______

Cyfeiriad ______

______

Enw Arweinydd y Dosbarth ______

Astudiaethau Beiblaidd o lyfr Daniel

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Daniel 1: 1-7
2: 1-19
a 2: 24-49



ADNOD ALLWEDDOL
Daniel 2: 28

## Astudiaeth 1 Daniel - Gwasanaethu Duw



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Genesis 41 Jeremeia 25 1-11

Ar ddechrau stori Daniel, mae brenin Babilon yn ymosod ar wlad Daniel, sef Jwda, ac mae Daniel yn cael ei ddal. Roedd proffwydi wedi dweud y byddai Jwda'n cael ei goresgyn. Cosb gan Dduw oedd hyn am fod ei bobl yn anufudd iddo.

C **Darllenwch Jeremeia 25: 1, 2 ac 8 – 11, ac atebwch y cwestiynau a ganlyn:**

C **Pwy oedd y proffwyd y sonnir amdano yma?** ______

C **Am faint o amser fyddai pobl Jwda yn gwasanaethu Babilon?** ______ 1

C **Edrychwch ar y Darlleniadau o'r Beibl a llenwi'r Ffeil Ffeithiau sy'n sôn am gipio Jwda.**






2

Roedd Daniel a thri dyn ifanc arall ymhlith y rhai a gafodd eu cymryd i gael eu hyfforddi i wasanaethu'r brenin dieithr. Yn ogystal â chael eu symud i wlad newydd ddieithr a dysgu iaith newydd, rhoddwyd enwau newydd iddyn nhw fel eu bod yn colli'r holl nodweddion oedd yn perthyn iddynt cynt.

C **Rhowch lythyren gyntaf enwau newydd y dynion yn y blwch ger eu hen enw.**

| **A – Abednego** | **B - Sadrach** | **C – Mesach** | **D – Beltesassar** |
|---|---|---|---|
| ☐ Misael | ☐ Daniel | ☐ Asareia | ☐ Hananeia |

2

**C** **Ysgrifennwch bedwar o'r nodweddion yr oedd y Babiloniaid yn chwilio amdanyn nhw yn y dynion ifanc fyddai'n cael eu dewis i gael hyfforddiant arbennig.**

| | |
|---|---|
| 1 | 2 |
| 3 | 4 |

2

Un noson, roedd Nebuchadnesar yn methu cysgu am iddo gael breuddwyd ryfedd.

**C** **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-**

Roedd y brenin wedi dweud wrth y dynion doeth beth oedd ei freuddwyd. ...............
Roedd y dynion doeth yn gallu dweud beth oedd ystyr y freuddwyd.. ...............
Rhoddodd y brenin orchymyn i ladd y dynion doeth i gyd.
(Yn cynnwys Daniel a'i ffrindiau). ...............
Gofynnodd Daniel a'i ffrindiau am help Duw. ...............

2

# GRID GEIRIAU




**Cliwiau i Lawr**
Atebwch y cwestiynau sy'n mynd i lawr trwy'r gair BREUDDWYD.

1. Pwy gafodd y freuddwyd?
2. Pwy oedd Nebuchadnesar?
3. Rhai o'r bobl oedd yn methu dweud beth oedd ystyr y freuddwyd. Y C _ _ _ _ _ _ _
4. Dywedodd y Caldeaid mai dim ond y _ _ _ _ _ _ oedd yn gwybod ystyr y freuddwyd.
5. Roedd y brenin eisiau __ _ __ doethion Babilon a Daniel a'i ffrindiau.
6. Cafodd Daniel wybod ystyr y freuddwyd mewn _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ __ yn y nos.
7. Ar ôl cael gwybod ystyr y freuddwyd, plygodd y brenin i lawr ac _ _ _ _ _ _ i Daniel (adnod 46)
8. Rhoddodd y brenin anrhegion ac anrhydedd i _ _ _ _ _ _ a'i gyfeillion.

8

Roedd Daniel yn gallu dweud beth oedd ystyr breuddwyd y brenin am fod Duw wedi'i helpu (darllenwch yr Adnod Allweddol).

**C** **Ysgrifennwch ger pob rhif o beth roedd pob rhan o'r ddelw wedi'i wneud.**

1 ............................... 4 ...............................
2 ............................... 5 ...............................
3 ............................... 6 ...............................




3

Er eu bod mewn gwlad ddieithr lle roedd y bobl yn addoli duwiau ffug, a'u bod wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd, roedd y pedwar ffrind yn parhau i ofyn am help Duw yn eu bywyd bob dydd. Dylen ninnau ofyn am help Duw hefyd. Pan fyddwn ni'n cael problemau, dylen ni weddïo am fod yn ddigon cryf a dewr i ddweud "Na" pan gawn ein temtio i wneud pethau drwg ac "Ie" pan gawn gyfle i wneud pethau da. Gallwn fod yn siŵr y bydd Duw yno i'n helpu ni, fel Ffrind, pan fydd arnom ei angen.

cyfanswm